# Cyngor Ariannol Grŵp Myfyrwyr

- 
- Cadwch gofnod o faint o arian y mae eich grŵp myfyrwyr yn ei gael neu yn ei wario.
    - Ceir templed ar gyfer hyn ar adnoddau MS Teams eich grŵpr sydd i'w cael ar Hyb Adnoddau Tîm Aber.
    - Gellir gweld balans eich grŵp myfyrwyr ar y modiwl cyllid; mae hyn yn cael ei ddiweddaru bob yn ail wythnos felly nid yw o reidrwydd yn dangos faint sydd gennych y funud hon.
    - Mae modd i chi gysylltu â sustaff@aber.ac.uk drwy e-bost i gael eich balans diweddaraf a/neu gryondeb o'ch trafodiadau os bydd angen.
- Trwy eich offer gweinyddol, gellir gweld crynodeb o'r holl nwyddau ar dudalen eich grŵp myfyrwyr ar wefan Undeb Aber.
- I ychwanegu nwyddau i dudalen eich grŵp myfyrwyr, gweler y ffurflen gais am nwyddau a geir ar Hyb Adnoddau Tîm Aber o dan yr adran "Cyllid / Yswiriant" - bydd y ffurflen hon yn gofyn am yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer y nwyddau hyn.
    - Gadewch o leiaf ddau ddiwrnod gwaith i ni gael prosesu'r cynnyrch; rhwydd hynt i chi lenwi'r ffurflen cyn gynted ag y mynnwch a threfnu amser a diwrnod penodol i werthu'r nwyddau.
    - Mae modd i chi osod y pris i £0.00 os ydych chi ond am iddo fod yn fodd o gofrestru ar gyfer digwyddiad - cewch wedyn restr o bawb sydd wedi'u cofrestru ac a oes unrhyw wybodaeth ychwanegol (addasiadau) rydych chi wedi gofyn eu cael ganddynt.
    - Gellir defnyddio hyn at werthu digwyddiadau neu eitemau, derbyn rhoddion, neu unrhyw bryd y bydd rhaid i aelodau dalu arian i mewn i gyfrif y grŵp myfyrwyr.
    - Gellir prynu unrhyw beth a werthir ar y wefan (gan gynnwys aelodaeth) gan dderbynfa Undeb Aber.
- Os ydych chi am brynu unrhyw beth ar gyfer y grŵp myfyrwyr ar-lein, gellir llenwi ffurflen gais i brynu a geir ar Hyb Adnoddau Tîm Aber yn y golofn "Cyllid / Yswiriant' - bydd y ffurflen hon yn gofyn am ddolen i'r eitem ac unrhyw fanylion.
    - Anfondir y ffurflen at yr adran gyllid a chyfleoedd; un waith y ceir sêl bendith gan gyfleoedd, fe archebith yr adran gyllid drostoch.
    - Anfonir e-bost atoch neu'r gymdeithas unwaith i'r e-bost gyrraedd, a chewch ei godi o dderbynfa Undeb Aber.
- I dalu arian i gyflenwr sydd wedi anfon anfoneb atoch, gellir defnyddio'r modiwl cyllid i greu cais am daliad. Wrth ddewis yr opsiwn "talu cyflenwr" o dan "fath o gais", gofynnir i chi roi holl fanylion y cais, dylai'r rheini fod i'w cael ar yr anfoneb. Defnyddir "BACS" fel y dull talu
- I dalu arian i aelod ee oherwydd maent wedi prynu rhywbeth i'r grŵp, dylid defnyddio'r modiwl cyllid i greu cais am daliad.Wrth ddewis yr opsiwn "ad-dalu" o dan fath o gais, gellir llenwi'r ffurflen gyda'r manylion perthnasol. O dan "yn daliadwy i" gellir eich dewis eich hun os mai chi sy'n hawlio'r ad-daliad, neu "myfyriwr arall" neu "trydydd parti" os mai i rywun arall fydd. Gall unrhyw aelod gyflwyno cais ar eu rhan eu hunain neu ar ran eraill.
    - Lle bo modd, rhowch gyfeiriad e-bost yn y maes cyswllt yn hytrach na rhif ffôn.
    - O ran dull talu, cofiwch ddewis "BACS" bob tro a llenwch y manylion banc - byddwn yn ad-dalu mewn arian parod ar gyfer unrhyw beth o dan £20, ond rydym yn defnyddio manylion banc fel modd amgen o gadarnhau mai yr un person ydych.

        - Os nad oes gan rywun gyfrif banc Prydeinig, cysylltwch â sustaff@aber.ac.uk ynglŷn â chyngor ar y camau nesaf.
        - Cofiwch annog pobl i ddefnyddio'r cyfrif banc bob tro, gan y caiff y cais ei gyfeirio os nad yw'r manylion banc yr un â'r hyn sydd gennym yn barod.
    - Mynnwch dderbyneb wedi'i heitemeiddio lle bo modd, ac esboniwch yn y cais os nad oes modd. Yn yr achosion hyn (ee mae'r dderbyneb ar goll neu wedi'i difrodi, neu na roddwyd un), mae modd i chi ddefnyddio sgrinlun o ddatganiad banc yn dangos y taliad, ond mae'n rhaid i ni gael eglurhad os nad oes derbyneb.
    - Os ydych chi wedi prynu rhywbeth â math wahanol o arian (nid punoedd Prydain) ee ar-lein neu os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol sydd wedi prynu rhywbeth tra gartref, cyflwynwch y dderbyneb yn arian y wlad honno, a sgrinlun o'ch datganiad banc yn dangos y swm a dalwyd mewn punoedd. Gellir cynnwys y ffi am dalu ag arian nad yw'n sterling yn rhan o'ch cais am ad-daliad. Os prynoch chi hyn â chyfrif banc nad yw'n Brydeinig, manylwch hyn yn eich cais, gyda sgrinlun o'r trosiant rydych chi wedi'i ddefnyddio (gellir gwglo hyn, ond os oes gennych app neu rywbeth tebyg, mae croeso i chi wneud hynny) i ni wybod bod yr arian rydych chi'n ei hawlio mewn punoedd yn gywir.
    - Pan gaiff y cais ei gyflwyno, bydd rhaid i aelod pwyllgor dan fandad ei gymeradwyo (hy y llywydd neu'r trysorydd). Os mae'r trysorydd yn cyflwyno cais, bydd rhaid i'r llywydd ei gymeradwyo; os mae'r y llywydd yn cyflwyno cais, bydd rhaid i'r trysorydd ei gymeradwyo; os bydd unrhyw un arall yn cyflwyno cais, gall y naill un neu'r llall ei gymeradwyo, ond cyfrifoldeb y trysorydd yw hyn gan amlaf.
        - Ni chewch gymeradwyo eich ceisiadau eich hunain neu geisiadau fydd yn eich talu chi; dyma pam fod rhaid i ddau gymeradwyo ceisiadau.
        - Os nad oes llywydd na thrysorydd dros dro ond bod angen hawlio rhywbeth, cysylltwch â susocieties@aber.ac.uk neu suclubs@aber.ac.uk - gallent gymeradwyo'r hawl dros dro i'ch ysgrifennydd neu'ch is-lywydd nes y gellir cynnal is-etholiad.
- O ran unrhyw gwestiynau ynghylch gweinyddiaeth cyllid grŵp myfyrwyr, cysylltwch â sufstaff@aber.ac.uk – ar gyfer unrhyw gwestiynau eraill, gan gynnwys e.e. ar beth y gallwch wario arian grŵp myfyrwyr, cysylltwch â susocieties@aber.ac.uk neu suclubs@aber.ac.uk yn ôl yr angen.
- Anfonir ffurflenni cais am grantiau gan y swyddog Cyfleoedd ynghyd â gwybodaeth am derfynau amser ac ati.
- O ran nawdd, yn aml yr ysgrifennydd cymdeithasol neu'r ysgrifennydd fydd yn ei drafod, ond gan ei fod fel arfer yn sicrhau arian ar gyfer y grŵp myfyrwyr, mae'n werth i ni sôn amdano. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen nawdd ar Hub Adnoddau Tîm Aber, neu mae croeso i chi ddod i dderbynfa Undeb Aber i godi rhai printiedig gennym. Byddwch yn llenwi hon gyda'r noddwr; gwnewch yn siŵr bod pob maes wedi'i lenwi. Bydd rhaid i chi wedyn ei roi i dderbynfa Undeb Aber ar ôl ei lenwi, ac fe wnawn ni fwrw golwg arni drostoch a rhoi gwybod a oes unrhyw broblemau. Os nad oes problemau, fe'i cadwn hi, ac anfonaf anfoneb yn uniongyrchol at y noddwr.
    - Eich cyfrifoldeb chi fel grŵp myfyrwyr fydd, ta waeth, i fynd ar ôl y noddwr i gael y taliad. Bydd rhai llefydd eisiau talu ag arian parod neu siec, a bydd angen i chi eu nôl ganddynt a dod â nhw i dderbynfa Undeb Aber cyn gynted â phosibl.
- Rhaid talu unrhyw arian a gasglir e.e. mewn digwyddiadau neu gan noddwyr yn Nerbynfa Undeb Aber cyn gynted ag y bo modd. Ni chaniateir i chi gadw arian ar ran y grŵp myfyrwyr eich hunan

- Os ydych chi’n trefnu digwyddiad lle bydd rhaid talu boed gydag arian parod yn unig neu beidio, mae modd i chi fenthyg peiriant darllen cerdyn SumUp oddi wrth yr Undeb. Cysylltwch â sufstaff@aber.ac.uk neu undeb@aber.ac.uk i drefnu ei fenthyg. Bydd hyn yn mynd yn uniongyrchol i'ch cyfrif cymdeithas, neu i gyfrif rhodd elusennol os ydych yn nodi ar y ffurflen allgofnodi ei fod ar gyfer elusen. Mae gennym nifer gyfyngedig ohonynt, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn eu harchebu ymlaen llaw pan gewch gyfle i sicrhau eich bod yn cael un